# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Tachwedd 2016

Amser: 14.30 - 15.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3777

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Nathan Gill AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Naomi Stocks (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 122KB) Gweld fel HTML (38KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)022 - Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016

### 2.2 SL(5)023 - Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gorchmynion Ad-dalu Rhent) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2016

2.2a Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 3 Papur(au) i'w nodi

### 3.1 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

3.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Adroddiad drafft

5.1 Bydd y Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

## 6 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Y flaenraglen waith

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.